Eglwys Bresbyteraidd Cymru – Adran Eglwys a Chymdeithas

‘Cysylltu Eglwysi ag Ysgolion – profiadau aelodau’

Vaughan Salisbury, Swyddog Addysg EBC (Tachwedd 2023)

Y Cefndir

Yn 2022, gofynnodd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru i mi ddiwygio a diweddaru llyfryn Gillian Wood, *Linking Churches and Schools,* Churches Together in England, 2003. Derbyniodd CERhC fy fersiwn diwygiedig yn ddiweddarach y flwyddyn honno (2022) a’i anfon at aelodau’r Cyngor a’u heglwysi er mwyn darllen a gweithredu.

Ym mis Medi 2022, dechreuwyd gweithredu Cwricwlwm i Gymru Llywodraeth Cymru yn ein hysgolion cynradd ac uwchradd. Fel rhan o’r cwricwlwm newydd hwn mae’n gofyn i ysgolion sicrhau fod dysgwyr yn datblygu ymdeimlad dilys o ‘gynefin’. Ystyrir cynefin fel lle rydym yn teimlo ein bod yn perthyn, lle mae’r bobl a’r dirwedd o’n cwmpas yn gyfarwydd a lle gellir adnabod golygfeydd a synau sy’n rhoi sicrwydd i ni. Mae’n caniatáu i ddysgwyr ddatblygu ymdeimlad cryf o hunaniaeth unigol a deall sut mae hyn yn cysylltu â dylanwadau ehangach ac wedi’u llywio ganddynt. Mae eglwysi a chapeli wrth gwrs yn rhan annatod o’r cynefin hwn ac mae hyn yn agor cyfleoedd i eglwysi lleol (fel sefydliadau lleol eraill) ddyfnhau eu cysylltiadau â’u hysgolion lleol. Trwy wneud hyn mae eglwysi yn cyfrannu at lunio cwricwlwm eang a chytbwys sy’n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol, diwylliannol a meddyliol dysgwyr a’u paratoi at gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn.

Wrth ystyried y datblygiadau cyffrous hyn, meddyliais y byddai’n fuddiol casglu enghreifftiau gan aelodau eglwysi’r enwad ar beth oedd eu cysylltiad â’u hysgolion lleol ac yn enwedig felly ar fater Addoli ar y Cyd ac addysgu mewn ysgol. Gyda chydweithrediad Eleri Melhuish a’r Dr Carys Moseley o Swyddfa’r enwad ac Ysgrifenyddion yr Henaduriaethau ac Ysgrifenyddion yr eglwysi, cefais ddigon o ymatebion yn ystod 2023 i feddwl y byddai’n werth i mi eu rhannu gyda’r eglwysi erbyn diwedd y flwyddyn. Rwy’n ymwybodol iawn bod cysylltiad eisoes yn bodoli ac wedi bodoli rhwng eglwysi ac ysgolion ers blynyddoedd lawer ond doedd neb, hyd y gwn i, wedi casglu’r profiadau hyn at ei gilydd a’u rhannu er gwybodaeth ac er mwyn ysbrydoli ein gilydd ar y mater hwn. Diolch yn fawr i chi felly am eich cyfraniadau ac am eich gwaith gyda’ch ysgolion lleol. Mae’n dystiolaeth ac yn gyfraniad pwysig i’r genhadaeth Gristnogol yn ein cymdeithas.

Nod y ddogfen hon yw rhoi cipolwg ar y cysylltiad rhwng eglwysi’r enwad a’u hysgolion lleol ac mae’n siwr bod mwy o enghreifftiau na hyn ar gael ond dyma’r hyn a ddaeth i law. Mae’r profiadau canlynol gan aelodau’r enwad wedi’u cyflwyno yn ôl y drefn dderbyniais i nhw ganddynt trwy e-bost ers dechrau’r flwyddyn (2023).

1. **Dwyryd Williams, Salem, Dolgellau, Dosbarth Meirion.**
   Prynhawn dydd Mercher, Hydref 26ain, 2022, daeth 185 o ddisgyblion Ysgol Bro Idris (Adran Gynradd Dolgellau, oedran 4-11oed) i gapel Salem, Dolgellau (EBC) i gynnal eu gwasanaeth Diolchgarwch. Daeth nifer cyffelyb o rieni, neiniau a theidiau i'r capel i gefnogi'r plant. Cafwyd oedfa fendithiol, gyda chyflwyniadau, darlleniadau a chaneuon addas iawn. Yn ystod y gwasanaeth anerchwyd y plant gan Mr Dwyryd Williams, ysgrifennydd y capel. Braf oedd cael cyfle i ail-sefydlu'r cysylltiad rhwng addoldai'r dref â'r ysgol leol wedi cyfnod y Covid.

2. **Eirian Rowlands, Parc, Llandyfrydog, Cylch Gogledd Môn.**
   Wedi clywed am y cynllun Agor y Llyfr, holais y Prifathro yn Ysgol Penysarn os buaswn yn gallu dod i ddarllen storiau o'r Beibl i'r plant. Cychwynnais yno ym Medi 2018. Rydwi hefyd wedi cychwyn yn ysgol Llannerch-y-Medd yn 2022. Byddaf yn mynd â gwisgoedd syml i'r plant i'w rhoi amdanynt a tra byddaf yn darllen y stori (wedi rhoi braslun iddynt) maen nhw yn actio rhywfaint. Nid oedd modd mynd yn ystod y pandemig ond pan oedd yn ddiogel i fynd yn ôl defnyddiais ddoliau gweu. Rydym yn ôl gyda'r gwisgoedd ac mae'r plant yn gofyn os oes cyfle iddynt gymeryd rhan. Mae'r staff, plant a minnau yn mwynhau y profiad a'r cymdeithasu o rannu hanesion o'r Beibl.

3. **Dr Alun Thomas, Môn.**
   Un enghraifft hoffwn gyfeirio ato yw'r perthynas rhwng Eglwys Unedig Rhos y Gad, Llanfairpwll. Fel Gweinidog rwyf wedi bod yn mynd i mewn i gynnal gwasanaethau gyda tîm Agor y Llyfr bob hanner tymor lle mae yna werthfawrogiad mawr gan yr athrawon o'r gwasanaethau. Mae'r Ysgol yn gwneud defnydd o'r Capel ar gyfer eu gwasanaethau Diolchgarwch a Nadolig.

4. **Trefor Jones, Bethesda, Yr Wyddgrug, Dosbarth Y Fflint.**
   Cyn y pandemig bu ysgolion cynradd acw ar gyfer Gwasanaethau Diolchgarwch a Nadolig; Jamborama gyda disgyblion 5 ysgolion Cymraeg Sir y Fflint gyda chynrychiolwyr yn cymeryd rhan mewn dathliad dan arweiniad Wendy Swan, gweithwraig ysgolion Yr Wyddgrug dan drefniant Agathos, a Lowri Mitton, gweithwraig ieuenctid rhan-amser dan drefniant yr Henaduriaeth; Ymweliadau mewn grwpiau o 20-25 disgybl o Ysgol Alun, Yr Wyddgrug yn astudio Addoldai y Dref gan eu cymharu o ran hanes yr adeiladau a'u hadeiladwaith; trefniadau gwasanaethau; darpariaethau ar gyfer dathliadau megis bedydd, priodas ac angladd; cyswllt rhwng yr eglwys a gweithgarwch elusennol gan iddynt gael eu herio i wario £1 yr un mewn siop elusen yn y dref - ffodus mae gennym sawl un yma at amrywiol achosion da yn ymwneud â phobl ac anifeiliad a hyn yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Gan fod yr Ysgoldy yng nghefn y capel gyda mynediad hwylus iddo defnyddid y lle ar gyfer Helfa Wyau Pasg siocled ar gyfer plant a'u gwarchodwyr adeg sesiwn Ti a Fi bore Gwener cyn gwyliau'r Pasg. Datblygwyd y gweithgarwch yn fodd i gyflwyno neges y Pasg i bawb ddaeth yno - cafwyd hyd i bob un o'r wyau siocled erbyn iddynt adael y capel! Hefyd cynhelid Clwb Ieuenctid Cristnogol yn wythnosol gyda chyfle iddynt ystyried dod yn aelodau yn enwedig wrth adael cartref.

5. **Y Parchedig Evan Morgan, Salem, Treganna, Caerdydd, Cylch Dwyrain Morgannwg.**
Cysylltiadau gyda ysgolion cyn Covid: roeddwn fel Gweinidog yn cael gwahoddiadau gan sawl ysgol dros gylch eang i gymryd gwasanaethau, sôn am fy ngwaith, sôn am brif wyliau yr Eglwys (ysgolion cynradd). Mae rhywun ar ôl fy Llywyddiaeth yn gobeithio adfer y berthynas. Mae 2/3 ysgol yn defnyddio Salem ar gyfer gwasanaethau Diolchgarwch/Nadolig. Mae nifer o'n haelodau yn athrawon/penaethiaid.

6. **Marian Jones, Capel y Groes Ebeneser, Dosbarth Wrecsam.**
Dyma ychydig am berthynas gydag ysgolion Cymraeg yn Sir Wrecsam.
Mae pob ysgol cyfrwng Cymraeg (cynradd) yn cael ymweliad bob hanner tymor gan grwpiau Agor y Llyfr. Mae tri thîm Agor y Llyfr Cymraeg yn y sir:
Tîm Wrecsam - gwasanaethu tair ysgol (Ysgol Plas Coch, Ysgol Bodhyfryd ac Ysgol Bro Alun) a'r bwriad yw ychwanegu Ysgol Llan y Pwll ym mhen tua blwyddyn. Yn y clo roedd neges Agor y Llyfr yn cael ei yrru i'r ysgolion fel recordiad ar y we.
Tîm Rhosllannerchrugog - gwasanaethu tair ysgol.
Tîm Llangollen - gwasanaethu tair ysgol gan gynnwys Ysgol Gwernant, Llangollen sydd yn Sir Ddinbych.
Mae tua 15 o wirfoddolwyr yn rhan o'r timoedd ac mae pob un gyda DBS cyfredol. Mae'r deunydd wedi ei baratoi'n barod i ni gan Agor y Llyfr (Cymdeithas y Beibl).
Mae pob ysgol yn gwerthfawrogi ymweliadau ac mae'r plant yn mwynhau yn fawr, oherwydd maent yn cael ymuno mewn drwy actio rhannau yn y stori. Mae hefyd yn rhoi boddhad i ni fel gwirfoddolwyr.

7. **Y Parchedig Aled Lewis Evans, Capel y Groes Ebeneser, Dosbarth Wrecsam.**
Dan ofal Siwan Jones (Capel y Groes Ebeneser, Wrecsam) ceir Hwyl Hwyr i blant a CIC i rai yn eu harddegau. Yn ddiweddar mae rhai sesiynau CIC wedi bod yn cyd-drafod efo minnau, Siwan, a'r ieuenctid gan bod 3 o'n hieuenctid wedi gofyn i gael eu bedyddio.
Daeth myfyrwyr trydyddol Coleg Iâl ar ymweliadau blynyddol efo'u hastudiaethau Cymraeg i weld Capel y Groes Ebeneser. Roedd y ddarlithwraig Carys Roberts yn dod efo myfyrwyr ail iaith Cymraeg Lefel A, ac roedd wastad yn hyfryd eu cyfarfod, a gweld y safon uchel llafar, oedd ganddynt.
Bob Nadolig bydd Ysgol Morgan Llwyd yn cynnal noson i'r Gymdeithas a'r capel yn croesawu nifer o rieni a chynulleidfa dda. Hefyd yn ddiweddar cawsom gyngerdd arbennig gan bobl ifanc DYNAMIC a'u cor arwyddo. Maent yn cyfarfod yn y capel ddwywaith yr wythnos.
Nadolig diwethaf fe ddaeth Undeb Gristnogol Prifysgol Caer i gynnal eu Gwasanaeth Carolau yng Nghapel St John Street, Caer. Cafwyd noson yng ngolau canhwyllau o ganu carolau a neges fer bwrpasol a cherddoriaeth gan ensemble glasurol o fyfyrwyr sydd yn yr Undeb Gristnogol. I mi roedd yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn o safbwynt Caer i gael y cyswllt hwn, ac i weld y capel yn llawn o bobl ifanc.
Mae ein pobl ifanc yn Wrecsam yn helpu efo Paned ar ôl yr Oedfa, wedi golchi ceir at Gymorth Cristnogol Hadau Gobaith, a helpu i gynnal bore goffi hefyd at Hadau Gobaith, a Noson Bingo.

8. **Nia Higginbotham, Seilo, Eglwys Unedig Gymraeg, Llandudno, Dosbarth y Glannau.**
Siaradais â dau ddosbarth, blwyddyn 8 (tua 60 disgybl) dros ddiwrnod mewn gwersi o 45 munud yr un. Hyn yn cynnwys siarad am Masnach Deg, cwis am Masnach Deg, gweithgareddau ayb. Yn Ysgol Emrys ap Iwan, Abergele oedd hyn. Cyn hynny bum mewn tua 5 ysgol gynradd yn siarad am Masnach Deg yn eu Gwasanaeth a hefyd yn Ysgol y Gogarth am gyfres o wersi.

9. **Helen Gibbon, Babell Zion Newydd, Caerfyrddin, Dosbarth Caerfyrddin.**
Ysgolion Llangynnwr, Nantgaredig a'r Dderwen yw'r dair ysgol sy'n gwerthfawrogi darpariaeth Agor y Llyfr yn fy mro i ger Caerfyrddin. Daw aelodau'r timoedd o'r capeli lleol ac mae'r pleser a gawn o berfformio a chyflwyno storiau'r Hen Destament a'r Testament Newydd yn heintus. Mae gwisgoedd safonol y cyfnod yn ychwanegu at y golygfeydd a'r perfformio graenus. Ond yn fwy na hyn mae yna groeso brwd am y ddarpariaeth gan yr athrawon a'r disgyblion fel ei gilydd. Yn wir mae'r plant yn frwdfrydig i gymryd rhan ac mae eu gweld a'u clywed yn chwerthin, yn gwenu, yn geg-agored, yn canolbwyntio, yn adrodd Gweddi'r Arglwydd yn dilyn y cyfnod o ymdawelu a myfyrio a ddarperir o fewn y strwythur, yn falm i'r enaid. Cynhelir gwasanaethau Nadolig yr ysgolion yn eu capeli lleol a gwn o brofiad am y berthynas dda rhwng Ysgol Llangynnwr a Chapel y Babell Zion Newydd Pensarn. Daw cynrychiolaeth dda iawn o rieni a phlant yn ôl i'r festri i gael lluniaeth wedi goleuo'r goeden Nadolig ac fe ddaw athrawon yn eu tro draw i roi gwers ar adeilad y capel ac arferion Cristnogol. Y mae côr yr ysgol wedi cyfrannu at sawl gwasanaeth hefyd yn y gorffennol ac un uchafbwynt oedd gosod cystadleuaeth 'Ysgrifennu llythyr i Dduw'. Yn ychwanegol at hyn cyflwynir Beiblau i blant ysgol Llangynnwr ac Ysgol y Dderwen yn flynyddol o gronfa casgliad gwasanaeth Dydd Gŵyl Ddewi y dre. Mae hyn yn achlysur yn ei hun.

10. **Huw Roberts, Gofalaeth Bro Nant Conwy.**
Elfen bwysig iawn o waith yr ofalaeth ydy ymgysylltu gyda'r gymuned leol, ac mae cysylltiad a pherthynas agos gyda'r ysgolion yn hanfodol i hyn. Mae hyn yn rhan allweddol o waith gofalaeth bro dan broject Gweinidogaeth Newydd ac Eglwys tu hwnt i furiau drwy'r Parchedig Owain Davies.
O fewn yr ofalaeth mae'r Gweinidog yn ymweld yn rheolaidd ag 8 Ysgol Gynradd ac 1 Ysgol Uwchradd sy'n cynnwys sgwrs/gwasanaeth. Mae rhai o'r ysgolion hyn hefyd yn cynnal eu gwasanaethau Diolchgarwch a Nadolig o fewn ein capeli. Mae'r gweinidog hefyd yn cadw cysylltiad trwy fynychu digwyddiadau'r ysgolion e.e. Ffair Haf, Sioeau, cyngherddau ayyb. Oherwydd y berthynas glos yma mae'r ysgolion wedi bod yn hynod o gefnogol i hybu gweithgareddau'r eglwys, megis rhannu gwybodaeth am ysgolion Sul, Clybiau CIC, digwyddiadau gyda'r rhieni a rhanddeiliaid.
Rydym hefyd wedi cael y cyfle i wahodd ysgolion i'n capeli ar gyfer 'Taith Y Pasg', sef cyflwyniad byw ac ymarferol i'r plant o hanes y Pasg, e.e. golchi traed y plant, bwyta'r swper olaf ayyb. Y cam nesaf ar gyfer datblygu'r berthynas yw sefydlu tim Agor Y Llyfr o fewn yr Ofalaeth i fynychu'r ysgolion er mwyn adrodd hanes y Beibl a dod a'r straeon yn fyw i'r plant.

11. **Jane Eleri Davies, Capel y Morfa, Aberystwyth, Dosbarth Gogledd Ceredigion.**
Cysylltiadau rhwng Capel y Morfa Aberystwyth ag ysgolion Ardal Aberystwyth:
    a) Agor y Llyfr: Sefydlwyd tîm Agor y Llyfr yng Nghylch Aberystwyth tua pum mlynedd yn ôl a oedd yn cynnwys aelodau o nifer o eglwysi'r ardal. Yn ystod cyfnod y Cofid roeddem yn ricordio ac anfon y ricordiad i'r Ysgol Gymraeg ac i Ysgol Llanilar. Rydym yn parhau i fynd i'r Ysgol Gymraeg unwaith y mis;
    b) Cyn cyfnod y Cofid eto, bu disgyblion o Ysgol Penweddig gyda'u cynorthwyydd yn gwneud coffi yn y Morlan i'r Cylch Gweddi a Choffi er mwyn meithrin sgiliau a hyder, gan ddychwelyd Tachwedd 2022 i gynorthwyo gyda'r lluniaeth a'r cawl yn y Man Cynnes yn y Morlan;
    c) Cynhaliwyd Profiad y Nadolig yn y Morlan bedair blynedd yn ôl gan wahodd disgyblion (Blwyddyn 5) yn eu grwpiau i ymweld â phedair golygfa o stori'r Nadolig a chlywed profiadau'r cymeriadau. Profiad gwerthfawr i bawb a gwerth ei ail-adrodd yn y dyfodol.

12. **Nia Williams, (Swyddog Addysg gyda Thîm Plant, Ieuenctid a Theuluoedd EBC), Capel y Drindod, Pwllheli, Dosbarth Dwyfor.**
Tudweiliog
Mae perthynas agos gyda'r Ysgol – cydweithio o ran digwyddiadau'r capel a'r clwb plant. Mae'r ysgol yn defnyddio'r Capel ar gyfer gwasanaethau Nadolig ac ymarferion.
Y Parchedig Gwyn Rhydderch (aelod o'r capel lleol - a Pennaeth Cyfathrebu a Phrosiectau EBC) yn cynnal Clwb Plant gyda thîm lleol ac yn tynnu lluniau'r plant yn yr ysgol ar gyfer y rhieni bob Nadolig. Tîm Agor y Llyfr wedi bod dros y blynyddoedd. Y Parchedig Olwen Williams, gweinidog lleol wedi ymddeol yn arwain gwasanaethau yn rheolaidd.

Pwllheli
Y Parchedig Bryn Williams, gweinidog, wedi arwain gwasanaethau dros y blynyddoedd yn yr ysgolion o fewn yr ofalaeth, yn ogystal â siarad am fedyddio a phriodas ac ymuno yn y Daith Gwasanaeth Nadolig.
Perthynas dda iawn gyda'r ysgolion sy'n gefnogol i'r Clwb Plant a'r Clwb Ieuenctid yng ngofalaeth Pwllheli.
Ysgolion lleol yn defnyddio'r capel ar gyfer gwasanaethau a sioeau Nadolig.

Llithfaen
Mae criw bychan gweithgar yno gydag Ysgol Sul fach. Mae'r plant yn mynychu Ysgol Pentreuchaf ac yn y gorffennol mae aelodau'r capel wedi bod yn cefnogi Clwb Plant.

Rwy'n arwain Addoli ar y Cyd unwaith bob tymor a tîm o wahanol gapeli sy'n ymuno i gyflwyno Gwasanaeth Nadolig ddiwedd tymor yr hydref mewn 29 o ysgolion yn Henaduriaethau Gorllewin Gwynedd ac Arfon.
Clwb trafod gyda Blwyddyn 5 a 6 yn Ysgol Pont y Gof, Botwnnog unwaith bob hanner tymor.
Ysgolion yn ymweld â Coleg y Bala ar gyfer y Dyddiau Pasg yn rheolaidd o Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd a henaduriaethau eraill o fewn cyrraedd i'r Coleg.

13. **Y Parchedig Aled Davies, Gofalaeth Bro ardal Chwilog sy'n cynnwys Capel Uchaf, Dosbarth Dwyfor. Cyfarwyddwr Cyngor Ysgolion Sul/Cyhoeddiadau'r Gair.**
Bob blwyddyn byddwn yn cynnal cyfarfod o dan nawdd yr eglwysi yn Ysgol Gynradd Chwilog adeg diwedd tymor yr haf, er mwyn ffarwelio gyda phlant blwyddyn 6 sydd ar y ffordd i'r ysgol uwchradd ac yn cyflwyno copi o Y Cam Nesaf a Beibl.net iddynt. Mae hwn yn gyfarfod lle mae rhieni ac aelodau'r capel yn dod ynghyd iddo.

Bob Nadolig bydd gennym gyfarfod canu carolau gyda holl blant yr ysgol, lle mae rhieini a ffrindiau yn dod ynghyd iddo yn y capel. Bydd yr ysgol yn cyflwyno eitemau a chanu cynulleidfaol yn ogystal. Yna bydd pob plentyn yn derbyn anrheg o lyfr wedi ei noddi gan yr eglwysi.

Bob dwy flynedd byddwn yn trefnu ffug briodas yn y capel, lle mae'r plant i gyd yn dod wedi gwisgo yn eu dillad gorau. Maent yn cynnal priodas rhwng dau o'r plant, ac rydym yn ail greu priodas draddodiadol yn y capel. Bydd aelod ddaru briodi yn y capel 50 mlynedd yn ôl yn ymuno gyda ni, ac yn rhannu ei hatgofion hithau, gan ddangos ei ffrog briodas i'r plant. Maent hefyd yn cael taith o gwmpas y capel er mwyn dangos gwahanol nodweddion yr addoldy. Pan bydd gennym fore coffi yn y neuadd ar fore dydd Gwener byddwn yn gwahodd y plant i mewn atom e.e. adeg diwrnod Plant mewn Angen, lle maen nhw'n gosod bwrdd gwerthu a ninnau'n cael cyfle i brynu a chefnogi.

14. **Vaughan Salisbury, Capel Unedig Seion, Glynceiriog, Dosbarth Wrecsam.**
Yn dilyn lansiad y Cwricwlwm Newydd i Gymru ym mis Medi 2022, a'r syniad o 'cynefin' yn y cwricwlwm hwnnw, penderfynwyd mewn cyfarfod o flaenoriaid y capel yn y Gwanwyn eleni (2023), y byddem yn cyflwyno pedwar awgrym i bennaeth Ysgol Gynradd Cynddelw, Glynceiriog (ein hysgol leol yn nyffryn Ceiriog) ar sut y gallwn ni fel capel gyfrannu at waith addysgol yr ysgol. Aeth dau flaenor i'r ysgol ar 18fed o Fai i drafod y pedwar awgrym isod gyda Mrs Lora Sockett, y Pennaeth. Cawsom groeso cynnes a chyfeillgar ganddi ac mi werthfawogodd yn fawr ein hawgrymiadau. Cyflwynwyd y pedwar cynnig canlynol:
a) ystyried defnyddio'r capel fel adnodd i rai gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Rydym eisoes wedi cyflwyno, ar gais un athrawes, ddwy wers yn y capel ar y sacrament o Fedydd;
b) bod un neu ddau ohonom, yn ôl yr angen, yn arwain Addoli ar y Cyd yn yr ysgol;
c) bod yr ysgol yn dathlu rhai o wyliau mawr y grefydd Gristnogol yn y capel, e.e. Diolchgarwch, Y Nadolig a'r Pasg. Daeth tri dosbarth o'r ysgol i ddathlu Gwyl Diolchgarwch yn y capel ar 19eg o Hydref, 2023. Gwahoddwyd rhieni'r plant hefyd i'r gwasanaeth. Cafwyd ymateb ffarfiol iawn gan y pennaeth ysgol ar ôl y gwasanaeth ac rydym yn gobeithio y byddwn yn gallu datblygu'r berthynas ymhellach trwy e.e. gynnal gwasanaeth carolau adeg y Nadolig.
ch) cynnig cyfraniad ariannol i'r ysgol ar gyfer adnoddau addysgol pwrpasol.

Rydym yn cydweithio'n dda yn ecwmenaidd gyda'r Parch Ddr Cass Meurig, yr Eglwys yng Nghymru ar y cynllun hwn.

15. Aelodau sydd yn cynrychioli'r enwad ar CYS/AGau Awdurdod Lleol (2023):

CYS/AG Cyngor Sir y Fflint - Y Parchedig Huw Ll. Powell-Davies (Henaduriaeth y Gogledd-Ddwyrain)
CYS/AG Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Vaughan Salisbury (Henaduriaeth y Gogledd-Ddwyrain)
CYS/AG Cyngor Sir Ddinbych – Y Parchedig Brian Huw Jones (Henaduriaeth Dyffryn Clwyd)
CYS/AG Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Huw Roberts (Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy)
CYS/AG Cyngor Sir Ynys Môn – Huw Goronwy Owen (Henaduriaeth Môn)
CYS/AG Cyngor Gwynedd – Gwawr Maelor Williams (Henaduriaeth Arfon)
CYS/AG Cyngor Sir Ceredigion – Y Parchedig Ddr. John Tudno Williams 2022 (Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro)
CYS/AG Cyngor Sir Gâr – Helen Gibbon (Henaduriaeth Myrddin)
CYS/AG Cyngor Caerdydd – Rheinallt Thomas (Henaduriaeth Morgannwg-Llundain)

16. Aelodau'r enwad sydd yn Llywodraethwyr Ysgol (2023):

Ysgol Llanrwst – Huw Roberts (Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy)
Ysgol Ysbyty Ifan – Bethan Trenchard (Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy)
Ysgolion cynradd Cymerau ac Abererch - Nia Williams, Swyddog Addysg gyda Thîm Plant, Ieuenctid a Theuluoedd EBC, (Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd).
Ysgol Glan y Môr, Pwllheli – Y Parchedig Bryn Williams, (Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd).
Mae nifer helaeth o aelodau Capel Salem, Treganna gan gynnwys y Parchedig Evan Morgan, y gweinidog, yn llywodraethwyr ysgol.